# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2015

Amser: 09.00 - 10.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/2924

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Joanna Jordan, Llywodraeth Cymru<br>Dr Grant Robinson, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Michael Kay (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Vaughan Thomas (Cynghorwr Arbenigol) |

| | |
|---|---|
| | Dave Thomas (Cynghorwr Arbenigol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am ymadawiadau cynnar (Mehefin 2015)**

**2.2 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Sir Powys am ymadawiadau cynnar (Mehefin 2015)**

**2.3 Cyllid Iechyd 2013-14: Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf (Mai 2015)**

## 3 Gofal heb ei drefnu: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

3.1 Penderfynodd y Pwyllgor ddechrau'r sesiwn dystiolaeth gyda Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru gyda thrafodaeth ar lywodraethu byrddau iechyd. Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon a bydd yn cael ei haildrefnu.

## 4 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Joanna Jordan,

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i ymchwiliad i Lywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru.

4.2 Cytunodd Dr Goodall i:

- gadarnhau amseriad adroddiad Capita ar gynllunio ariannol, pan fyddai'r Bwrdd yn trafod ei ymateb dros dro.
- darparu nodyn o'r holl ddigwyddiadau difrifol yn deillio o lefel nyrsys / ward yn ystod y deuddeg mis diwethaf ledled Cymru.
- darparu nodyn o aelodau annibynnol presennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'u sgiliau a'r profiad o recriwtio pobl o gefndiroedd ariannol / masnachol.
- darparu nodyn ar gydymffurfio â'r Polisi Disgyblu Cymru Gyfan (a chopi o'r polisi).
- anfon copi o'r adroddiad gan y Gymdeithas Frenhinol y Seiciatryddion a'r camau a gymerwyd.
- darparu nodyn ar agweddau gweithredol y gwasanaeth y tu allan i oriau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Gwrthodwyd y cynnig.

## 6 Gofal heb ei drefnu: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon.

## 7 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon.